

# DOLEN Y TAB – 46

12–13 MAWRTH 2021

---

## \* Oedfa Sul 14 Mawrth\*

Yng nghwmni Edwyn Evans

---

### Oedfaon dros yr wythnosau nesaf

#### Mawrth

21 Y Parchg. Gethin Rhys

28 Emlyn Davies

#### Ebrill

4 Eirian Rees a chriw Efail Isaf

11 Y Parchg. Aled Edwards

18 Oedfa Deuluol

---

### Hefyd ar 14 Mawrth . . .

#### 11.00 Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Yng ngofal y Parchg. Mererid Mair, Salem, Caernarfon

#### 12.00 Oedfa Radio Cymru

Oedfa Sul y Mamau  
yng ngofal Nia ac Elin Williams, Pwllheli

#### 12.30 Radio Cymru

*Bwrw Golwg* gyda John Roberts

#### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

---

### Croeso Adref

Braf iawn oedd clywed bod Rhiannon Humphreys, Pentre'r Eglwys, wedi dychwelyd gartref wedi iddi dreulio ychydig amser yn yr ysbyty ddechrau'r wythnos. Dymunwn wellhad buan iddi.

## Apêl

Diolch i bawb sydd eisoes wedi gwirfoddoli i gyfrannu at yr oedfaon yn 2021. Os oes rhagor ohonoch yn barod i gyfrannu, yna cysylltwch gyda Geraint Rees ([geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com) / 07816 341527). Mae angen pob talent arnom i gynnal y llif o oedfaon am weddill y flwyddyn.

Diolch yn fawr.

# Galwad am 10,000 o leisiau

Rydym yn hen gyfarwydd ers blynnyddoedd â'r ffaith bod yr hinsawdd a byd natur mewn argyfwng enbyd sy'n bygwth ein cymunedau a'n ffordd o fyw yma yng Nghymru, ond yn fwy felly mewn rhai o wledydd tlotar byd. Ond mae'r flwyddyn 2021 yn cynnig gobaith am ddyfodol gwell. Ym mis Tachwedd bydd arweinwyr y byd yn ymgynnull yn Glasgow ar gyfer Uwchgyhadledd Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig. Bydd y gynhadledd yn cynnig cyfle i ni ddangos i'r gwleidyddion pa mor arwyddocaol i ddyfodol ein cymunedau fydd y penderfyniadau a wneir ganddynt yno.

Gyda hyn mewn golwg, yr wythnos hon lansiyd ymgyrch gan *Climate.Cymru* yn galw am 10,000 o 'leisiau' i ddweud wrth ein harweinwyr ein bod am weld gweithredu cryf i ddiogelu'r hinsawdd a chynefinoedd naturiol Cymru. Os llwyddir i ddenu 10,000 i gofrestru eu cefnogaeth i'r ymgyrch, yna bydd *Climate.Cymru* yn anfon cerflun iâ ar siâp calon i'r Senedd ym Mae Caerdydd er mwyn dangos i'r gwleidyddion yno pa mor bwysig yw'r mater hwn. Eisoes dros y tri diwrnod cyntaf mae dros 750 o leisiau i'w clywed yn cefnogi'r ymgyrch. Gobaith *Climate.Cymru* yw cyrraedd eu targed o 10,000 erbyn mis Mai ac anfon y galon iâ i'r Senedd yn yr haf, ynghyd â neges gref i arweinwyr yma yng Nghymru ac ar draws y byd bod trigolion Cymru am weld gweithredu pwrpasol i ddiogelu'r hinsawdd. Os hoffech ymuno yn yr ymgyrch hon, tasg hawdd iawn yw ychwanegu eich 'llais' wrth ymweld â gwefan ddwyieithog *Climate.Cymru* lle medrwch dorri eich enw fel un o'r cefnogwyr.



---

### BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Bu'n rhaid gohirio cyfarfod y Bwrdd y bwriadwyd ei gynnal ar 9 Mawrth hyd nos Fawrth 16 Mawrth. Felly mae cyfle pellach gennych i godi unrhyw fater trwy roi gwybod i'r Ysgrifennydd ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) 01443 225205 / 07710 237327) erbyn bore Llun 15 Mawrth.

---

# YR OEDFA: AGENDA WLEIDYDDOL RADICAL

Anaml iawn y byddaf yn cael fy nenu i ddarllen adolygiad o raglenni'r wythnos mewn papur neu gylchgrawn ar ôl sylwi ar bennawd y golofn yn unig. Ond dyna'n union ddigwyddodd i mi wythnos yn ôl pan welais y pennawd uchod ar frig colofn Huw Onllwyn wrth fodio'n frysiog drwy rifyn yr wythnos o *Golwg*. Mwy anghyffredin fyth, o'm rhan i o leiaf, yw fod rhai o sylwadau'r colofnydd wedi fy ysgogi i ymateb iddynt – sef prif amcan y golofn yn y lle cyntaf, siŵr o fod. Felly dyma fi'n neidio ar ben fy mocs sebon rhithiol.

Wrth ddarllen ei golofn, 'Ar y Soffa', y sioc gyntaf oedd sylweddoli bod yr awdur wedi dewis neilltuo'r cyfan o'i golofn i



adolygu un rhaglen grefyddol, sef oedfa fore Sul Radio Cymru – rhaglen fu'n rhan annatod o arlwy wythnosol Radio Cymru ers degawdau lawer. Ond yn sgil y crebachu cyson dros y misoedd diwethaf ar gyfraniadau crefyddol ar Radio Cymru, roedd hi'n galonogol nodi bod colofnydd mor brofiadol yn gweld gwerth mewn pwyso a mesur rhaglen grefyddol yn y glorian.

## Neges Gyfoes Rymus

Gan fod yr oedfa dan sylw, a ddarllwyd ar 28 Chwefror ar drothwy gŵyl ein nawddsant ac ail Sul y Grawys, yn nwylo diogel y Parchedig John Gwilym Jones, edrychwn ymlaen yn fawr at ddarllen sylwadau'r colofnydd. Cyn troi at y golofn, braf oedd gallu gwrando ar yr oedfa unwaith yn rhagor trwy garedigrwydd gwasanaeth digidol *BBC Sounds*. Nid yn annisgwyl, roedd gwrando ar genadwri John Gwilym Jones o'r newydd yn cadarnhau fy argraffiadau cychwynnol iddo gyflwyno neges

bwrpasol ac amserol oedd wedi ei saernio'n gelfydd. Llwyddodd mewn modd effeithiol iawn i gyplysu profiad y fam a'i mab yn hunanynysu yn nofel apocalyptaidd Manon Steffan Ros, *Llyfr Glas Nebo*, gyda phrofiadau pob un ohonom ers blwyddyn, a'i gyferbynnu gyda'r Iesu yn *dewis* ymneilltuo i'r anialwch a Dewi Sant yn *dewis* dilyn bywyd syml. Neges ganolog ei genadwri yw na ddylem golli'r cyfle i gael gwell trefn ar ein blaenoriaethau yma yng Nghymru a ledled y byd wrth gynllunio'r dyfodol ôl-bandemig.

Rydym eisoes wedi cael ein hatgoffa bod yna argyfyngau llawer gwaeth na Covid-19, hyd yn oed, y bydd angen eu datrys os yw'r ddynoliaeth i oresgyn bygythiadau real iawn – megis cynhesu byd-eang, dirywiad bio-amrywiaeth a lledaeniad newyn a thlodi. Dyma negeseuon na fedrwn ni mo'u hosgoi drwy gladdu ein pennau yn y tywod. Ceir ateb di-amwys i'r argyfyngau hyn yn yr agenda radical a gyflwynwyd mor rymus gan John Gwilym Jones, ond iddynt gael eu hystumio gan y colofnydd.

## Dim Cyfle i Drafod

Beth felly oedd wedi digio Huw Onllwyn? Os nad wyf wedi camddeall, byrdwn ei sylwadau yw mai darllediad gwleidyddol radical oedd yr oedfa o'i dechrau i'w diwedd, heb gyfle ynddi am drafodaeth. Rwy'n sicr y byddai John Gwilym Jones wrth ei fodd yn derbyn y fath ganmoliaeth, gan mai dyna'n union oedd beirniadaeth yr awdurdodau ar ddysgeidiaeth greiddiol yr Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd. Rwy'n siŵr y byddai John Gwilym yn fwy na pharod i groesawu trafodaeth ystyrion ar Radio Cymru i'w neges. Hefyd byddai llawer ohonom yn croesawu mwy o raglenni ar Radio Cymru sydd heb fod yn *'llawn chat diddiwedd, cerddoriaeth ysgafn, na newyddion'* a chynnig mwy o gyfle i 'feddwl' am faterion pwysicaf ein hoes, boed hynny gyda pheint o gwrw – neu ddŵr o ffynnon Non – i'w yfed.

---

Cylchlythyr wythnosol yw *Dolen y Tab* i ledaenu newyddiontrwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205.